Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Garndolbenmaen

**Garndolbenmaen**
**Gwynedd**
**LL51 9SZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Garndolbenmaen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Garndolbenmaen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 21 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 19 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 2 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 28.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 63.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 16/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Garndolbenmaen yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy’n meithrin lles ac yn cefnogi dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r pennaeth newydd yn arwain yr ysgol yn effeithiol, ac yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, wedi llwyddo i greu perthynas waith agos rhwng yr holl randdeiliaid. Mae’n gosod disgwyliadau uchel ohoni ei hun ac mae ei hymrwymiad a’i brwdfrydedd wedi sicrhau bod yr ysgol yn gwneud camau da tuag at gwrdd â’u blaenoriaethau. Mae’r berthynas agos sy’n bodoli rhwng y staff a’r rhieni yn cyfrannu’n effeithiol at falchder y disgyblion at eu cymdeithas a’u hymdeimlad cryf o berthyn i’r gymuned leol. Mae'r ymdeimlad o fod yn perthyn i un teulu mawr yn elfen gref o’r ysgol hon.

Mae staff yn adnabod anghenion lles y disgyblion yn dda iawn. Maent yn cynnig cyfleoedd parhaus i ddisgyblion drafod eu teimladau a rhannu eu hemosiynau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hunanhyder a’u parodrwydd i gymryd risg. Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau cyffrous a diddorol sy’n ysgogi brwdfrydedd a chwilfrydedd disgyblion tuag at eu gweithgareddau. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau, yn enwedig eu medrau datrys problemau a digidol. Mae athrawon yn gwrando’n dda ar farn a sylwadau’r disgyblion a chyfraniadau rhieni i gynllunio cwricwlwm sy’n cefnogi’r disgyblon i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cyfrannu’n dda at ddatblygiad cyflawn bron bob disgybl.

Mae’r athrawon yn dechrau defnyddio canfyddiadau asesu i gynllunio’n fwriadus ar gyfer datblygiad pellach disgyblion. Maent yn cywain gwybodaeth gychwynnol o nifer gynyddol o ffynonellau. Er hynny, nid ydynt bob amser yn defnyddio’r wybodaeth yn ddigon miniog i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Nodwedd gref o’r ysgol yw’r parch a’r cwrteisi sydd gan y disgyblion at ei gilydd ac oedolion. Mae llawer yn dangos balchder heintus at eu gwaith ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dealltwriaeth o’r ardal leol, Cymru a’r byd ehangach.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr adborth i ddisgyblion, a'r wybodaeth a ddaw wrth asesu ac olrhain eu cynnydd, yn cael gwell effaith ar y camau nesaf yn eu dysgu

A2 Sicrhau lefel briodol o her mewn gweithgareddau dysgu’r disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau sy'n briodol i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygu. Wrth symud drwy'r ysgol, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, yn enwedig ym maes lles. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau yn dda.

Mae medrau digidol bron bob disgybl yn datblygu'n dda iawn ar draws yr ysgol; mae hyn yn gryfder. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd i gyflawni tasgau codio, dadansoddi data, recordio a golygu ffilm. Maent yn defnyddio a chymhwyso eu medrau digidol fel rhan annatod o'u gwaith, sydd yn eu paratoi'n dda iawn ar gyfer byd gwaith a'r dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda iawn. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau staff yn bwrpasol ac yn gwrando ar ei gilydd yn effeithiol wrth weithio yn yr ardaloedd ac yn ystod amseroedd chwarae. Er enghraifft, wrth greu a dadansoddi siapiau 2D a chydweithio a datrys problemau mewn gwersi awyr agored rheolaidd ar gae'r ysgol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn siarad Cymraeg a Saesneg yn gynyddol gywir, gydag ystod ehangach o eirfa lafar bwrpasol. Ar frig yr ysgol, mae bron bob disgybl yn hyderus wrth siarad ag oedolion, maent yn ymateb yn gwrtais, ac yn frwdfrydig wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Maent yn trafod eu llyfrau darllen yn gynyddol hyderus, ac yn sôn yn ddeallus am y cymeriadau a'r prif ddigwyddiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod briodol o dechnegau darllen yn dda i ddehongli geiriau llai cyfarwydd. Mae'r disgyblion hynaf yn gwneud defnydd da o atalnodi i lywio'u darllen. Maent yn datblygu eu medrau darllen uwch yn bwrpasol i ddarllen testunau gwahanol yn Gymraeg a Saesneg, ac wrth gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ddod o hyd i ffeithiau am chwareli gwahanol.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau ysgrifennu da yn unol â'u lefel datblygiad. Maent yn datblygu eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn effeithiol ac yn magu hyder cynyddol i strwythuro amryw ffurfiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o eirfa aeddfed wrth ysgrifennu'n greadigol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at Bendigeidfran oddi wrth Branwen. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar y cyfan, mae cyflwyniad gwaith a llawysgrifen y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda.

Mae disgyblion y dosbarth ieuengaf yn datblygu medrau rhifedd da. Maent yn gallu ymateb i gwestiynau ysgrifenedig a rhai llafar yn hyderus, ac yn egluro'n ddeallus yr hyn maent wedi ei wneud i gyrraedd y canlyniad. Yn y dosbarth hwn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o batrymau rhif a gwerth lle ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddatrys problemau. Maent yn trin gwahanol fesuriadau'n bwrpasol wrth fesur cynhwysedd yn ymarferol ac yn ymdrin â

ffracsiynau syml yn llwyddiannus drwy rannu pitsa. Gallant ddweud yr amser mewn fformat analog a digidol a dangos dealltwriaeth dda o briodweddau siapiau rheolaidd, siapiau 3D a chymesuredd.

Drwy nifer o weithgareddau ymarferol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth hŷn yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft trwy blannu, tyfu, amcangyfrif, pwyso a mesur tatws yng ngardd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o offer mesur yn fedrus, yn gosod data'n gywir mewn tablau ac yn datblygu eu gallu i greu graffiau gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau'n effeithiol wrth gydweithio i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gynllunio a chreu coed Nadolig o hen bren yn y gweithdy coed.

Mae bron bob disgybl yn datblygu medrau creadigol cadarn trwy gynllunio, recordio a pherfformio rap am fywyd yn y chwarel. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith creadigol ac yn ei drafod yn hyderus. Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau creadigol ymhellach wrth gwblhau gwaith celf graenus a gwreiddiol. Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda drwy amrywiaeth o weithgareddau priodol mewn gwersi, wrth chwarae ac wrth fynd am deithiau cerdded o amgylch yr ardal leol.

Mae medrau datrys problemau a chydweithio y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda, er enghraifft trwy arbrofi â chylchedau a thrwy gynnal arbrawf cadw'n heini. O ganlyniad, maent yn cymhwyso eu medrau gwyddoniaeth a thechnoleg yn dda.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae ethos gofalgar yr ysgol yn sicrhau bod bron bob disgybl yn teimlo'n hapus, diogel ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn dangos bwrlwm naturiol tuag at eu gweithgareddau ac yn arddangos brwdfrydedd wrth gyfrannu'n ddeallus yn ystod sesiynau dysgu. Maent yn rhyngweithio'n aeddfed a pharchus â'u ffrindiau ac ymwelwyr, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr ymdeimlad eu bod yn perthyn i un teulu mawr yn yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob un yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn dangos balchder wrth siarad am eu dysgu a'r holl brofiadau a gynigir iddynt.

Yn ystod sesiynau dysgu ac amseroedd egwyl a chinio, mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn. Maent yn gwrtais ag eraill, ac yn gynhwysol at ei gilydd. Maent yn dangos agweddau sensitif a charedig at ddisgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol. Mae bron bob disgybl yn ystyried a gwerthfawrogi teimladau eraill, maent yn ymwybodol iawn o ystyr empathi ac yn cyfrannu'n aeddfed tuag at drafodaethau moesol mewn gwasanaethau'r ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau'n fedrus, sy'n cyfrannu at hyrwyddo eu hyder. Maent yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf yn fwriadus a chynhaliol wrth ddysgu yn yr awyr agored.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Maent yn datblygu chwilfrydedd a chyffro wrth chwarae'n hapus ochr yn ochr â'u ffrindiau. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae pob disgybl yn siarad yn aeddfed â'i gilydd mewn gweithgareddau dosbarth. Maent yn cyfrannu'n arbennig o dda at eu dysgu, er enghraifft wrth fynegi barn yn grefftus am yr awgrym i leihau gwyliau'r haf. Maent yn gwrando'n dda ar safbwyntiau ei gilydd, yn dangos parch teilwng ac yn barod i newid

eu meddyliau yn dilyn trafodaeth. Mae’r rhan fwyaf yn rhyngweithio’n hapus a naturiol â’i gilydd yn yr ardaloedd dysgu gwahanol. Ar y cyfan, maent yn elwa o’r cyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio’r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael iddynt i ddatblygu eu medrau’n annibynnol. Er hynny, nid ydynt bob tro'n gwneud penderfyniadau priodol wrth ddewis lefel her eu gweithgaredd.

Mae’r berthynas waith barchus sy’n bodoli rhwng y staff a’r disgyblion yn elfen gref o’r ddarpariaeth. Mae bron pob disgybl yn dangos cydweithrediad a dyfalbarhad wrth gwblhau tasgau, er enghraifft wrth fod yn benderfynol i orffen creu lloches mewn gweithgaredd awyr agored. Ar frig yr ysgol, mae’r disgyblion yn gwrando’n astud ac yn ymateb yn fedrus i weithgareddau yn y dosbarth ac mewn sesiynau awyr agored. Maent yn dangos diddordeb yn holl feysydd y cwricwlwm ac yn ymateb yn dda i gefnogaeth lafar y staff. Er hynny, nid ydynt yn ymateb yn ddigon cyson i adborth ysgrifenedig athrawon yn eu llyfrau.

Mae’r disgyblion yn cymryd eu rôl fel aelodau o gynghorau’r ysgol o ddifrif, gan ddefnyddio eu llais yn effeithiol i ddylanwadu ar benderfyniadau o fewn yr ysgol. Trwy eu gwaith ar y cynghorau, maent yn cyfrannu’n effeithiol at agweddau o fywyd yr ysgol trwy drefnu gweithgareddau codi arian, er enghraifft wrth drefnu parti Pasg, diwrnod gwallt gwyllt, ffair Nadolig, a ffair haf.

Mae bron bob disgybl yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod eu gwersi ac mewn sesiynau allgyrsiol, gan gynnwys y clwb Urdd, twrnamaint pêl-droed a Chwpan y Byd Ni. Maent yn ymwybodol bod cynnal corff iach yn bwysig i gynnal eu lles. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel diwrnod iechyd meddwl plant ac yn hyrwyddo’r diwylliant hwn yn llwyddiannus. Maent yn esbonio manteision bwyta bwydydd iach a pham na ddylent fwyta gormod o fraster a siwgr yn effeithiol.

Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cydraddoldeb a thegwch. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am hawliau plant yn effeithiol i greu cyfres o hawliau ar gyfer gwella safonau byw chwarelwyr yn y 19eg ganrif. Mae’r rhan fwyaf yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein, er enghraifft trwy eu gwaith gyda’r heddlu a’u gwaith yn y dosbarth. Erbyn brig yr ysgol, maent yn datblygu eu gallu i wahaniaethu rhwng bwlio a seibr-fwlio yn effeithiol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan staff ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm ac maent yn cynllunio’n fwriadus ar ei gyfer. Maent yn datblygu ystod helaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddod yn ddysgwyr annibynnol a chreadigol. Mae’r athrawon yn cyd-gynllunio’r cwricwlwm mewn modd crefftus ac yn cynnig cwricwlwm cytbwys sy’n adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol yn effeithiol iawn. Er enghraifft, trwy ymweliad i chwarel leol ac ymweliad pellach i ganolfan awyr agored.

Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth gyffrous o themâu i gyflwyno gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm. Ar y cyfan, mae'r ystod o weithgareddau yn hybu cynnydd da o ran medrau, hyder a chreadigrwydd disgyblion. Mae gweithgareddau wedi eu cynllunio'n dda ac yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau presennol disgyblion. Yn yr arfer orau, mae

medrau ieithyddol a rhifedd y disgyblion yn cael eu hatgyfnerthu mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm yn dda.

Mae staff yn cydweithio'n dda â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr wrth iddynt gynllunio themâu a thasgau dosbarth sydd yn denu mwynhad a brwdfrydedd bron bob un o'r disgyblion. Mae staff yn ymgynghori â'r rhieni wrth iddynt ailystyried arwyddair yr ysgol yn ogystal â chydweithio'n agos â'r gymuned leol i gynllunio, adeiladu, creu a chynnal gardd yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar greu ymdeimlad clòs a chymunedol yn yr ysgol.

Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n hybu annibyniaeth ar draws amrediad o ardaloedd yn y dosbarth, fel ardaloedd ar gyfer animeiddio yn y dosbarth ieuengaf ac amrywiaeth helaeth o dasgau digidol yn y dosbarth hynaf. Maent yn cynllunio ystod o gyfleoedd diddorol i ddisgyblion ysgrifennu ffurfiau gwahanol a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn yr arfer orau, maent yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion adeiladu ar eu medrau digidol, er enghraifft trwy ddefnyddio caledwedd gwahanol i atgyfnerthu eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau ar draws y cwricwlwm bob tro'n ddigon heriol, nac yn adeiladu'n ddigonol ar y dysgu blaenorol.

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei Chymreictod. Mae athrawon yn atgyfnerthu hyn drwy ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddathlu'r iaith a'r diwylliant Cymreig, er enghraifft wrth iddynt gynllunio, creu ac arddangos llwyau garu traddodiadol Cymreig a thrwy gyfansoddi cerddoriaeth drwy feddalwedd digidol. Maent yn gwneud defnydd da iawn o ymweliadau lleol ac ymwelwyr Cymreig, fel artistiaid ac arbenigwyr byd ffilmiau, i ddatblygu ymdeimlad y disgyblion o berthyn i'w cynefin ac i Gymru.

Mae staff yn rhoi adborth llafar cyson i'r disgyblion am safon eu gwaith ac, ar y cyfan, yn cynnig adborth ysgrifenedig amserol i ddisgyblion. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn cael cyfle i ailddrafftio a gwneud cywiriadau gramadegol i'w gwaith. Er hyn, nid yw'r adborth bob tro'n cynnig digon o arweiniad i'r disgyblion wella cynnwys eu gwaith ac nid oes cyfleoedd digon rheolaidd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn dangos gwelliannau. Mae athrawon a chymorthyddion yn holi'n dreiddgar, sy'n effeithiol wrth gynorthwyo'r disgyblion i adalw'r dysgu blaenorol. Mae athrawon yn defnyddio strategaethau addas i alluogi disgyblion i werthuso tasgau, a'u gwaith eu hunain mewn gweithgaredd llafar dosbarth drwy sesiynau 'Dewch i Asesu'.

Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion drwy asesu tasgau penodol, a gwneud defnydd o brofion safonol, yn ogystal â monitro cyfraddau presenoldeb yn fanwl. Er hyn, nid ydynt bob tro'n defnyddio'r canfyddiadau'n ddigon effeithiol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol deuluol sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob un o'r disgyblion yn hynod effeithiol. Mae'r staff yn cydweithio'n agos â'r rhieni ac yn cynnal sgyrsiau anffurfiol cyson am faterion sy'n ymwneud â lles eu plant. O ganlyniad, mae gan y staff adnabyddiaeth drylwyr o anghenion emosiynol bob disgybl ac mae eu gofal a'u cynhaliaeth ohonynt yn rhagorol. Mae'r staff yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion ac

yn eu hannog i feithrin parch at ei gilydd yn dda. Caiff hyn ei amlygu yn yr ymddygiad ardderchog a'r cwrteisi naturiol sydd gan bob disgybl.

Mae'r staff yn olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag ADY, yn effeithiol. Maent wedi cychwyn dadansoddi cynnydd y disgyblion yn erbyn eu medrau ac yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn fwriadus wrth gynllunio. Mae hyn yn cyfrannu at sicrhau bod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol.

O dan arweiniad y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), mae'r cymorthyddion, sy'n newydd yn eu gwaith, yn dechrau dangos dealltwriaeth dda o'r dulliau mwyaf priodol i gefnogi disgyblion. Mae'r ysgol wedi cymryd camau cadarn mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol i weithredu'r ddeddf ADY newydd. Maent yn trafod anghenion y disgyblion yn rheolaidd ac yn derbyn arweiniad clir am ddulliau cefnogi effeithiol. Mae gan staff gyswllt cynhyrchiol ag ystod eang o asiantaethau allanol ar gyfer cefnogi'r ddarpariaeth.

Mae'r staff yn cynllunio i sicrhau bod bron bob disgybl yn ymwybodol iawn o'r angen i gadw'n iach a'r angen i wella'u ffitrwydd. Mae aelodau o'r cyngor ysgol wedi trefnu gwerthu 'kebabs' ffrwythau er mwyn codi arian i'r ysgol ac mae ymweliadau i ganolfan lleol i wneud gweithgareddau yoga, anadlu ac ymlacio yn cyfrannu'n effeithiol at y ddealltwriaeth hon.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn manteisio ar wasanaethau boreol i drafod digwyddiadau cyfoes fel wythnos iechyd meddwl lle cynigir cyfleoedd da i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddulliau i ddelio â phryderon. Mae yna ymdeimlad ysbrydol effeithiol i'r gwasanaethau boreol sy'n cyfrannu'n briodol at y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac i archwilio credoau'n fuddiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn effeithiol. Mae staff yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion trwy gynnig profiadau iddynt ddysgu am leoliadau arwyddocaol lleol fel Chwarel Llechwedd a rheilffordd Ffestiniog. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o arwyddocâd a phwysigrwydd eu cymuned wrth ei chymharu â'r byd ehangach. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau i feithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn sioeau a chyngherddau yn y gymuned ac mewn eisteddfodau lleol, ac eisteddfod yr Urdd. Mae'r cyswllt clòs â'r gymuned yn elfen gref o waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i fonitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion ac mae cyfradd presenoldeb yr ysgol yn dda iawn. Mae'r pennaeth a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau wrth ddiogelu disgyblion ac mae diwylliant gofalgar yn yr ysgol. Mae'r trefniadau'n bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei phenodiad ym mis Medi 2023, mae'r pennaeth wedi arwain yr ysgol yn frwdfrydig a chwbl ymroddedig. Mae ei gweledigaeth yn cyfrannu'n gadarn at feithrin

ethos cynhwysol lle mae disgyblion, staff a holl bartneriaid yr ysgol yn teimlo fel rhan o un teulu mawr. Mae'n angerddol dros sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn amgylchedd ddysgu ofalgar a chyffrous. Mae'n dangos parodrwydd i wneud penderfyniadau sy'n newid cyfeiriad yr ysgol, er enghraifft drwy wella defnydd o'r ardal allanol fel adnodd i ddysgu yn yr awyr agored. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion wrth iddynt gydweithio a dysgu gyda'u cyfoedion, ynghyd â datblygu eu medrau cymdeithasol. Gyda'i gilydd, mae'r staff yn ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus a brwdfrydig sy'n ymfalchïo yn eu cymuned a'u diwylliant. Maent yn sicrhau bod pawb yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol.

Mae disgwyliadau uchel y pennaeth, ynghyd â'r diwylliant o gydweithio cyson rhwng y nifer fechan o staff, yn nodwedd gref o'r ysgol wledig hon. Mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned sy'n barod i ddysgu, ac maent yn awyddus i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y ddarpariaeth orau bosibl. Er enghraifft, mae'r staff yn rhyngweithio'n fwriadus â staff ysgolion lleol ac mae hyn yn dechrau cael effaith ar eu gweithdrefnau asesu.

Mewn byr amser, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol sy'n seiliedig ar gasgliad o dystiolaeth uniongyrchol. Gyda'i gilydd, mae'r staff yn dadansoddi cyrhaeddiad a darpariaeth trwy graffu ar waith y disgyblion, a thrwy gynnal teithiau dysgu ac arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r broses yn cynnwys cywain gwybodaeth oddi wrth ystod o bartneriaid, gan gynnwys y rhieni, llywodraethwyr a'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r pennaeth a'r staff yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i'r afael â llawer o'r gwelliannau'n fwriadus. Mae'r prosesau gwella eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol, yn arbennig ym maes lles, presenoldeb a safonau gwaith ysgrifennu estynedig y disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyflwyno egwyddorion Cwricwlwm i Gymru a gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn effeithiol. Mae staff yn hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn hynod lwyddiannus, sy'n cyfrannu'n gadarn at ddatblygu balchder y disgyblion at eu hunaniaeth a'u treftadaeth.

Mae gan athrawon gyfrifoldeb dros feysydd dysgu a phrofiad penodol. Mae'r cymorthyddion yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella safonau dysgu, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, ac yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her. O dan arweiniad y pennaeth, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o'u rôl fel cyfaill beirniadol yn effeithiol. Maent yn ymwybodol o flaenoriaethau'r ysgol ac yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac yn gwneud defnydd synhwyrol a pherthnasol o'r grant datblygu disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod y bwyd a diod a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a threfniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn ddiweddar, mae aelodau o'r corff wedi dylanwadu ar benderfyniad yr ysgol i newid polisi bwyta ffrwyth amser egwyl drwy ddefnyddio elfen o arian grant amddifadedd i gynnig ffrwyth am ddim i'r disgyblion hynny sydd eu hangen.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad staff yn hyrwyddo eu dysgu proffesiynol yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu ar bob lefel. Er enghraifft, maent yn cael hyfforddiant pwrpasol am ddatblygiadau Cwricwlwm i Gymru yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu mwy am ddulliau i gefnogi lles disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Mae’r berthynas rhwng yr ysgol a’r rhieni yn gryfder amlwg. Mae’r cydweithio a’r cyfathrebu cyson yn sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth gadarn o’r hyn sy’n digwydd yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at eu gallu i gefnogi eu plant adref yn ogystal â’u gallu i gynnig syniadau sy’n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   10/04/2024